Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Rhaglen frechu RSV GIG Cymru ar gyfer oedolion hŷn
# Cymorth gweledol i Weithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol

## Mae'r wybodaeth hon ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n cyflwyno rhaglen frechu RSV y GIG ar gyfer oedolion hŷn ledled Cymru

## Cefndir

Mae'r rhaglen RSV yn seiliedig ar gyngor gan JCVI.

- O **1 Medi 2026**, estynnwyd y rhaglen i gynnwys oedolion 65-74 oed mewn grwpiau risg clinigol penodedig[1].
- O **1 Ebrill 2026**, ehangwyd y cynnig dal i fyny untro i gynnwys oedolion 80 oed a hŷn a phob preswylydd mewn cartref gofal i oedolion hŷn[2].
- Ar **1 Medi 2024**, cyflwynodd GIG Cymru raglen frechu RSV reolaidd i oedolion sy'n troi'n 75 oed. Cyflwynwyd cynnig dal i fyny cychwynnol hefyd i'r rhai rhwng 75-79 oed[3].

## Pa frechlyn RSV sydd ar gael?

- Abrysvo®

**Sut i archebu Abrysvo®**

- Gellir archebu Abrysvo® gan **ImmForm.**
- Cofiwch ddefnyddio'r cyflenwad priodol wrth archebu ar gyfer **oedolion hŷn.**




## Pwy ddylai gael cynnig y brechlyn RSV?

- Oedolion 75 oed a hŷn.
- Holl breswylwyr cartrefi gofal ar gyfer oedolion hŷn, waeth beth fo'u hoedran.
- Oedolion 65-74 oed sydd yn imiwnoataliedig neu sydd â chlefyd anadlol cronig. Am restr o'r cyflyrau cymwys, gweler tudalen 7 o **Respiratory syncytial virus: the green book – GOV.UK** (safle allanol, Saesneg yn unig).

## Cyd-weinyddu'r brechlyn RSV

Dylid adolygu cofnod brechu'r unigolyn a chynnig unrhyw frechiadau sydd heb gael eu rhoi. Lle bo'n briodol, ystyriwch roi'r brechlyn RSV ar y cyd â brechlynnau eraill, gan gynnwys brechlynnau COVID-19, yr eryr a brechlynnau niwmococol.

| Brechlynnau a weinyddir yn gyffredin i oedolion hŷn | A ellir rhoi'r brechlynnau gyda'i gilydd? | |
|---|---|---|
| Abrysvo® a Shingrix® | ✔ | *Yn ddelfrydol, ni ddylid rhoi Abrysvo® ar yr un pryd â'r brechlyn ffliw i oedolion hŷn. |
| Abrysvo® a Pneumovax 23® | ✔ | |
| Abrysvo® a brechlyn COVID-19 | ✔ | |
| Abrysvo® a brechlyn y ffliw | ✔ * (peidiwch â'u cyd-weinyddu fel mater o drefn) | |

* Gall rhoi Abrysvo® gyda'r brechlyn ffliw tymhorol leihau'r ymateb imiwnyddol i gyfansoddion RSV a'r ffliw (H3N2). Gallai hyn o bosibl leihau'r amddiffyniad rhag clefyd anadlol difrifol ymhlith oedolion hŷn. Fodd bynnag, os nad yw'r unigolyn yn debygol o ddychwelyd am ei frechlyn rhag y ffliw, gellir ei roi ar yr un pryd.

## Negeseuon atgoffa clinigol a gweithredol

- Nid yw'r brechiad rhag RSV yn un tymhorol, a dylid ei gynnig drwy gydol y flwyddyn.
- Nodwch a defnyddiwch system galw, ailalw ac atgoffa i wahodd oedolion:
  - sydd o fewn 12 wythnos i'w pen-blwydd yn 75 oed.
  - sy'n 65–74 oed ac mewn grwpiau risg clinigol penodedig, yn unol â chanllawiau cenedlaethol.
  - sy'n 80 oed neu'n hŷn
  - sy'n byw mewn cartref gofal i oedolion hŷn.
- Cynigiwch y brechlyn RSV pan fo'r cyfle yn codi i unigolion 75-79 oed a oedd cyn hyn yn rhan o'r 'rhaglen dal i fyny'.

**A oes angen dosau atgyfnerthu?**

Nac oes. Un dos sydd ei angen ar hyn o bryd. Mae treialon o'r brechlyn wedi dangos bod y brechlyn yn rhoi amddiffyniad da am o leiaf dwy flynedd a'i fod yn debygol o bara'n hirach.

## Rhagor o wybodaeth

- **RSV - Gwybodaeth i weithwyr iechyd proffesiynol – Iechyd Cyhoeddus Cymru**
- **Adnoddau a digwyddiadau hyfforddiant imiwneiddio – Iechyd Cyhoeddus Cymru**
- **Iechyd Cyhoeddus Cymru – Hyfforddiant** (Saesneg yn unig) (dim ond ar gael i weithwyr gofal iechyd â chyfeiriad e-bost y GIG)
- **RSV: Llyfr Gwyrdd – GOV.UK** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- **Rhaglen RSV: gwybodaeth i weithwyr iechyd proffesiynol – GOV.UK** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- **Gwybodaeth ddiweddaraf am raglen frechu RSV 2026 | WHC/2026/020** (safle allanol)
- **Cwestiynau cyffredin am RSV Iechyd Cyhoeddus Cymru** (Saesneg yn unig)
- **Amserlenni imiwneiddio arferol i Gymru - Iechyd Cyhoeddus Cymru**
- **Fideo: Paratoad | Abrysvo® (brechlyn RSV) | PfizerPro UK** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- Adnoddau ***am ddim*** i gefnogi clinigau brechu: **Adnoddau Gwybodaeth Iechyd – Iechyd Cyhoeddus Cymru**
- Canllawiau ar fframweithiau cyfreithiol ar gyfer gweinyddu: **Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru** (safle allanol)
- Abrysvo® Crynodeb o Nodweddion y Cynnyrch (SmPC): **Powdr a hydoddiant Abrysvo ar gyfer hydoddiad ar gyfer chwistrelliad – SmPC – (emc)** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- **Cerdyn Melyn | Gwneud meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol yn fwy diogel** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- **Abrysvo▼ (brechlyn RSV Pfizer) ac Arexvy▼ (brechlyn RSV GSK): byddwch yn wyliadwrus o gynnydd bach yn y risg o syndrom Guillain-Barré ar ôl brechu mewn oedolion hŷn - GOV.UK** (safle allanol, Saesneg yn unig)

**Sgania fi am ragor o wybodaeth ar RSV**

**Cyfeiriadau**


1. Vaccination in adults at higher risk of respiratory syncytial virus (RSV) disease: JCVI advice, 18 March 2026 – GOV.UK (safle allanol, Saesneg yn unig)
2. RSV immunisation programme for adults aged 80 years and older: JCVI advice, 16 July 2025 – GOV.UK (safle allanol, Saesneg yn unig)
3. JCVI RSV immunisation programme: JCVI advice, 7 June 2023 (updated 11 September 2023) – GOV.UK (safle allanol, Saesneg yn unig)


Fersiwn 4 | Awst 2026
© Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru